**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Mawrth 2024 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Dan Evans (Cadeirydd), Lynford Thomas, Johnny Davies, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Alan Henson, Haf Hughes, Glyn Davies, Hywel Ifans

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng**.** Harry Williams, Melinda Williams

2. **PERSONOL**
   Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cyng. Harry Williams sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

i. **Ysgol Cribyn,** Y Cyng. Alan Henson a Lyn Williams

ii. **Cynllunio** A230318 Y Cyng. Alan Henson a Glyn Davies
**Cwblhawyd ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb**

4. **CADARNHAU COFNODION 13/02//2024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

6. **7 viii Solway**. Gan fod Solway'n mynnu hawlio tâl am gywiro ei gamgymeriad gofynwyd i saer lleol ymgymryd â'r gwaith am ddim.
7. 10.f **Arolwg Bancio.** Darllenwyd llythyr gan Ben Lake mewn ymateb i'r Arolwg Banco a gwblhawyd gan y Clerc ar ran y Cyngor.
8. 11.g **Erthygl 4.** Darllenwyd ymateb gan y Sir yn datgan ei fod yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yn hyn.
   **12.i Cymorth Cyntaf.** – Trafodwyd ymateb St. John's. Gan fod Pwyllgor Neuadd Dihewyd yn trefnu sesiwn tebyg**, penderfynwyd** aros i gael adborth am y cwrs hwnnw a gweld a fyddai'n addas ar gyfer y Cyngor hefyd.
   **12 v. Ffordd Cribyn i Droedyrhiw**. Oherwydd bod bod yn hwn yn fater o Iechyd a Diogelwch anfonwyd llythyr yn uniongyrchol at Rhodri Llwyd. Yn anffodus cyfeiriwyd y cais at Clic. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb pellach.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd cadarnhad mai 11.1% yw'r **codiad ar y dreth** am 2024-25 a chafwyd manylion am sut y dyranwyd yr arian i'r gwahanol gwasanaethau. Nododd bod yr arian a gesglir o'r **banciau poteli** yn mynd i goffrau'r Cyngor Sir, Cadarnhaodd hefyd ei bod hi'n fwriad gan y Cyngor Sir i leihau ar nifer y banciau rywbryd yn y

dyfodol. O ran **Hafod Brynog**,roedd wedi derbyn gwybodaeth gan Adran y Priffyrdd nad oes hawl gosod potiau blodau o fewn 50cm i'r hewl fawr,  Yn sgil y wybodaeth hon mae'r Cyng. Jones yn bwriadu ymweld â theulu'r Brynog i rannu'r wybodaeth gyda nhw.  Mae yna ymateb gan Adran Gyfraith y Cyngor Sir eto i ddod. Rhanwyd gwybodaeth am drefniiadau arfaethedig Adran y Priffyrdd ar gyfer rheoli traffig **Ysgol Dyffryn Aeron.**   Cynhelir ymgynghoriad maes o law.

**7. CYLLID**

- **i.** Tâl y Clerc mis Chwefror £213.57
- **ii.** Neuadd Dihewyd £40
- **iii.** Neuadd Felinfach £30
- **iv.** Tony Bretland  £638.63 (yn cynnwys codiad o 2%)
- **v.** Les Verdin 106.41 (yn cynnwys codiad o 2%)
- **vi.** Ad-daliad costau Zoom i Eleri Lewis £155.88 (129.90 heb TAW)
- **vii.** Ffioedd Archwilio Cymru ££286.00

**8 .CYNLLUNIO.**

A230318.  Apêl : Trewern Felinfach.  Cafwyd esboniad gan Y Cyng. Ceris Jones mai penderfyniad y teulu Lewis oedd i beidio ag arwyddo cytundeb Adran 106 oedd sail y Cyngor Sir i wrthod y cais cynllunio a bod y teulu felly'n apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.   Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** mai penderfyniad personol i'r ymgeiswyr oedd hwn ac felly nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw beth arall i'w ychwanegu.

---

**9. YSGOL CRIBYN**

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyng. Alan Henson parthed cynlluniau Cymdeithas Clotas i brynu Ysgol Cribyn ar gyfer creu tŷ fforddadwy a Neuadd Gymunedol. Yn yr adroddiad dywedodd bod y cynnig i brynu cyfranddaliadau'n agor ar 22ain o Fawrth. Cafwyd cyfle hefyd i weld y cynlluniau. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr ac yn dilyn cyflwyno adroddiad ariannol gan y Clerc **penderfynwyd** buddsoddi £1500.00 yn y fenter gymunedol hon yn seiliedig ar ganran y buddsoddiad a wnaed i brosiect cymunedol diweddar arall. **Penderfynwyd defnyddio'r £1486.00 yn weddill o'r Prosiectau Arbennig a throsglwyddo £14.00 o'r pennawd Contingency i ariannu'r pryniant.**

Gofynwyd i'r Cyng. A. Henson a L. Williams i adael yr ystafell yn ystod y sesiwn drafod/pleidleisio.

**10. AROLWG 20 mya**

Ar gais Elin Jones AS, cwblhawyd yr arolwg uchod.

**11. GOHEBIAETH**

a. Pwyllgor Safonau a Moeseg. Darllenwyd neges gan y Cyngor sir parthed hyfforddiant y Cod Ymddygiad. **Penderfynwyd** nad oedd angen yr hyfforddiant ar hyn o bryd ac i barhau i gael sesiwn mewnol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol.
b. Cymdeithas Clotas. Darllenwyd llythyr yn diolch am y nawdd o £250.

**12. UNRHYW FATER ARALL**

i. Nododd y Cyng. Hywel Ifans unwaith eto ei bryder parthed cyflwr yr hewl sy'n arwain at brif ganolfannau'r pentref a'r gofid am y diffyg golau stryd sydd yn ei gwneud hi'n anoddach fyth gweld y tyllau. **Penderfyn-wyd** ysgrifennu at y Cyngor Sir.
ii. Cinio'r Cadeirydd. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau

NODYN CYFFREDINOL. Cyfeiriwyd nifer o geisiadau at y Cyngor Sir am gyflwr hewlydd o fewn yr etholaeth a nodwyd siom nad yw'r un wedi cael sylw gan Adran y Priffyrdd.

**13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

9fed Ebrill yn Ysgol Cribyn